



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru 2021

Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mawrth 2021

Incorporating

EC HARRIS
BUILT ASSET
CONSULTANCY



CYSYLLTIADAU

SARAH TOOBY

Arcadis
Tŷ Arcadis Cymru
Parc Busnes
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0EY
Y Deyrnas Unedig

Error! No text of specified style in document. **Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru 2021**

Awdur Alex Ellis

Gwiriwr Sarah Simons

Cymeradwy-ydd Martina Girvan

Rhif yr Adroddiad 10039650_EC_RP_WFD_03

Dyddiad MAWRTH 2021

RHEOLI FERSIYNAU

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Newidiadau
01	Tachwedd 2020	AE	Cyhoeddiad cyntaf
02	Chwefror 2021	AE	Diwygiadau yn dilyn sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru
03	Mawrth 2021	AE	Diwygiadau ar ôl cyhoeddi fersiwn derfynol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021

Paratowyd yr adroddiad hwn dyddiedig 04 Mawrth 2021 ar gyfer Llywodraeth Cymru (y "Cleient") yn unol â'r telerau ac amodau penodi dyddiedig Hydref 2020 (y "Penodiad") rhwng y Cleient ac **Arcadis Consulting (UK) Limited** ("Arcadis") at y dibenion a nodir yn y Penodiad. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni chaiff unrhyw unigolyn/unigolion eraill ddefnyddio neu ddibynnu ar yr adroddiad hwn na'i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth o'r fath gan unrhyw drydydd parti arall.

CYNNWYS

1	CYFLWYNIAD	1
1.1	Diben	1
1.2	Y Strategaeth	5
1.3	Polisiâu a Chynlluniau Cryno	5
2	SGRINIO	9
2.1	Dull Sgrinio	9
2.2	Asesiad Sgrinio Cychwynnol	10
2.3	Asesiad Sgrinio Manwl	11
2.4	Casgliad Sgrinio	15
3	CASGLIAD CYFFREDINOL	16
4	CYFEIRIADAU	17

Geirfa

Geirfa	
Effaith niweidiol (ar gyfanrwydd)	Effaith negyddol ar y safle Natura 2000 (a adnabyddir fel safle Ewropeaidd yn y DU)/ Ramsar a/neu ei nodweddion cymhwyso a allai arwain at effaith sylweddol sy'n tanseilio Amcanion Cadwraeth y safle, a/neu arwain at golled swyddogaeth ecolegol.
Cynefinoedd Atodiad I	Cynefin naturiol sydd wedi'i restru o dan Atodiad I y Gyfarwyddeb Cynefinoedd y gellir dethol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar eu sail.
Rhywogaethau Atodiad II	Rhywogaeth o dan Atodiad II y Gyfarwyddeb Cynefinoedd y gall Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gael eu dewis ar eu sail.
Asesiad Priodol	Term a ddefnyddir i ddisgrifio Cam 2 y broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae angen Asesiad Priodol os penderfynir bod perygl y gallai cynllun neu brosiect gael effaith sylweddol niweidiol ar safle Natura 2000 (a adnabyddir fel safle Ewropeaidd yn y DU)/ Ramsar, naill ai ar ei ben ei hun neu'n gyfunol â chynlluniau neu brosiectau eraill.
Clustogfeydd	Gall effeithiau ymestyn ymhell y tu hwnt i ffiniau safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Diffinnir y 'clustogfeydd' a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn fel yr ardaloedd o gwmpas safle Natura 2000 (a adnabyddir fel safle Ewropeaidd yn y DU)/ Ramsar lle mae'r potensial o effeithiau yn debygol o fod fwyaf.
Mesurau gwneud iawn	Mesurau y bwriedir iddynt sicrhau bod cydlyniant y rhwydwaith Natura 2000 (a adnabyddir fel y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn y DU) yn cael ei ddiogelu lle na ellir diystyru effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safle, ac yn absenoldeb atebion amgen, y mae'n rhaid i'r cynllun neu brosiectau fynd rhagddynt am Resymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI). Mae'n rhaid iddynt gael eu gwahaniaethu'n eglur o fesurau lliniaru.
Amcan Cadwraeth	Datganiad o'r dyheadau cadwraeth natur ar gyfer safle, a fynegir yn nhermau cyflwr ffafriol y rhywogaethau a/neu'r cynefinoedd y detholwyd y safle i'w gyrraedd.
Safle morol Ewropeaidd	Y rhannau o safle Natura 2000 (a adnabyddir fel safle Ewropeaidd yn y DU)/ Ramsar sy'n ardaloedd morol.
Statws cadwraeth ffafriol	Amrywiaeth o amodau ar gyfer cynefin naturiol neu rywogaeth lle nad yw cyfanswm y dylanwadau sy'n gweithredu ar y cynefin neu'r rhywogaeth honno yn effeithio'n niweidiol ar ei dosbarthiad, ei thoreth, ei strwythur neu ei swyddogaeth drwy'r UE yn yr hirdymor. Y cyflwr y gall y cynefin neu'r rhywogaeth gynnal ei hun ynddo ar sail hirdymor.
Tir â chysylltiad swyddogaethol	Nid yw rhywogaethau sy'n gysylltiedig â safle dynodedig wedi eu cyfyngu i ffiniau'r lleoliad hwnnw a byddant yn aml yn defnyddio cynefinoedd y tu allan i'r safle i fwyta, clwydo a/neu fridio. Os bydd y cynefin hwn yn hanfodol i weithrediad y safle dynodedig trwy fod yn hanfodol i gynnal y nodwedd gymhwyso, byddai hwn yn cael ei ystyried yn 'dir â chysylltiad swyddogaethol'. Fel y cyfryw, byddai angen i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gymryd unrhyw effeithiau posibl ar y cynefinoedd hyn i ystyriaeth.

Geirfa

Cynefin	Y man lle mae planhigyn neu anifail yn byw.
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Yr asesiad o effaith y prosiect neu gynllun, naill ai ar ei ben ei hun neu o'i gyfuno â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ar gyfanwydd y safle Natura 2000 (a adnabyddir fel safle Ewropeaidd yn y DU)/ Ramsar, o safbwynt strwythur a swyddogaeth y safle a'i amcanion cadwraeth.
Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig	Rhan o'r profion rhanddirymiaidau yn Erthygl 6(4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rheoliadau 62 a 103 y Rheoliadau Cynefinoedd a Rhan 4 cam 4 yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Fe'i diffinnir fel sefyllfa a fyddai'n caniatáu i gynlluniau neu brosiectau a allai gael effaith niweidiol ar gyfanwydd safle Natura 2000 (a adnabyddir fel safle Ewropeaidd yn y DU)/ Ramsar ddigwydd.
Effaith Sylweddol Debygol	Effaith debygol yw un na ellir ei diystyru ar sail gwybodaeth wrthrychol. Tebygolrwydd o effaith yw'r prawf, yn hytrach na sicrwydd y bydd yr effaith honno'n digwydd. h.y. ceir perygl, neu bosibilrwydd y bydd effaith yn sylweddol.
Mesurau lliniaru	Ar ôl osgoi, cam neu gamau yw lliniaru y gellir eu cymryd i leihau neu ddileu effeithiau niweidiol cynllun neu brosiect ar safle Natura 2000 (a adnabyddir fel safle Ewropeaidd yn y DU)/ Ramsar.
Safle Natura 2000 (a adnabyddir fel safle Ewropeaidd yn y DU)	Y rhwydwaith Ewropeaidd o safleoedd gwarchodedig a sefydlwyd o dan y Gyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar. Yn y DU, cyfeirir atynt yn rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol neu Safleoedd Ewropeaidd.
Nodweddion cymhwyso (safle)	Y cynefinoedd neu'r rhywogaethau y dosbarthwyd safle yn AGA neu y dynodwyd safle yn ACA neu y rhestrwyd safle fel safle Ramsar ar eu sail.
Safle Ramsar	Safle a ddynodwyd o dan Gofensiwn Ramsar 1971 fel gwlypdir o bwysigrwydd rhyngwladol.
Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)	Safle a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar sail ei gynefinoedd a/neu rywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd (yn cynnwys Prif Resymau/Nodweddion Cymhwyso – Cynefinoedd Atodiad I/Rhywogaethau Atodiad II).
Sgrinio	Term a ddefnyddir i ddisgrifio Cam 1 y broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac sy'n nodi'r potensial o Effaith Sylweddol Debygol ar safleoedd Natura 2000 (a adnabyddir fel safle Ewropeaidd yn y DU)/ Ramsar.
Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)	Safle a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cadwraeth Adar Gwyllt ar sail rhywogaethau adar mudol prin, agored i niwed ac sy'n bresennol yn rheolaidd a gwlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (yn cynnwys Erthygl 4.1/4.2 adar).
Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	Dynodiad cenedlaethol (DU) ar gyfer safleoedd yr ystyrir eu bod o ddiddordeb arbennig oherwydd ffawna, fflora, daearegol neu ffisiograffig.

Mae teitlau'r safleoedd yn y ddogfen hon yn adlewyrchu rhestrau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ac os oes gan safle deitl dwyieithog, dim ond y fersiwn Gymraeg a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

Geirfa

Rhestrau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur –

ACAau: <https://sac.jncc.gov.uk/site/wales>

AGAau: <https://jncc.gov.uk/our-work/list-of-spas/>

Safleoedd Ramsar: <https://jncc.gov.uk/our-work/ramsar-sites/>

1 CYFLWYNIAD

1.1 Diben

1.1.1 Paratowyd yr Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn gan Arcadis Consulting (UK) Ltd ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru (SDC). Yr Adroddiad hwn yw Cam 1 (gwaith sgrinio cychwynnol a gwaith sgrinio manwl SDC) proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Darperir rhagor o fanylion am gamau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn Adran 3. Proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Deddfwriaeth a Chanllawiau

1.1.2 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn cael ei gynnal yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau canlynol:

- *Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ymadael â'r UE 2019)*. Lluniwyd y rheoliadau hyn yn 2019 i sicrhau bod y warchodaeth o gynefinoedd a rhywogaethau a safonau sy'n deillio o gyfraith UE yn parhau i fod yn berthnasol ar ôl Brexit. Diwygiwyd y Rheoliadau hyn yn 2012 i drosi yn fwy eglur agweddau penodol ar y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Yn 2017, cydgrynhowyd a diweddarwyd Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ("Rheoliadau Cynefinoedd 2010") gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017".
- Y Comisiwn Ewropeaidd, *Managing Natura 2000 sites: The provisions of Article 6 of the Habitats Directive 92/43/EEC*.
- Y Comisiwn Ewropeaidd, *Guidance document on Article 6(4) of the Habitats Directive 92/43/EEC*.
- Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2006), *Planning for the Protection of European Sites: Appropriate Assessment. Guidance for Regional Spatial Strategies and Local Development Documents*.
- DTA Publications Limited (Mehefin 2016), *The Habitats Regulations Assessment Handbook*.

Cefndir i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.1.3 O dan Erthygl 6 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (a Rheoliad 102 y Rheoliadau Cynefinoedd), mae asesiad yn ofynnol pan allai cynllun arwain at effeithiau sylweddol ar safle sy'n rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, a adnabuwyd yn flaenorol fel 'safle Ewropeaidd' yn y DU neu 'safle Natura 2000' yn Ewrop. Oherwydd i'r newid hwn gael ei gyflwyno gan lywodraeth y DU ym mis Ionawr 2021 ar ôl cwblhau'r adroddiad hwn a mapiau cysylltiedig, cyfeirir at safleoedd fel safleoedd "Ewropeaidd" yn y ddogfen hon o hyd. Mae'r safleoedd dynodedig hyn yn rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, sy'n rhwydwaith o ardaloedd a ddynodwyd i warchod cynefinoedd naturiol a rhywogaethau sy'n brin, mewn perygl, yn agored i niwed neu'n endemig yn y Gymuned Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar sail eu cynefinoedd a/neu rywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd, ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau), a ddsberthir o dan Gyfarwyddeb 2009/147/EC ar Gadwraeth Adar Gwyllt (y fersiwn wedi'i chodeiddio o Gyfarwyddeb 79/409/EEC fel y'i diwygiwyd) ar sail rhywogaethau adar mudol prin, agored i niwed neu sy'n ymddangos yn rheolaidd a gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol.

1.1.4 Hefyd, mae'n fater o gyfraith bod ymgeiswyr ACA (yACAau) a Safleoedd o Bwys i'r Gymuned yn cael eu hystyried yn y broses hon; hefyd, polisi'r Llywodraeth yw bod safleoedd sydd wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 ar sail eu gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (safleoedd Ramsar) ac AGAau posibl (AGAup) yn cael eu hystyried hefyd.

1.1.5 Caiff gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd eu trosi i gyfraith Cymru a Lloegr trwy Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2017¹.

¹ Papur Polisi: *Changes to the Habitats Regulations 2017, cyhoeddwyd ar 1 Ionawr 2021*

<https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-the-habitats-regulations-2017/changes-to-the-habitats-regulations-2017>

1.1.6 Mae Rheoliad 61, Rhan 6 y Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi:

'A competent authority, before deciding to undertake, or give consent, permission or other authorisation for, a plan or project which (a) is likely to have a significant effect on a European site or a European offshore marine site (either alone or in-combination with other plans or projects), and (b) is not directly connected with or necessary to the management of the site, must make an appropriate assessment of the implications for that site in view of that site's conservation objectives.'

1.1.7 Mae Rheoliad 62, Rhan 6 y Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi:

'If the competent authority are satisfied that, there being no alternative solutions, the plan or project must be carried out for imperative reasons of overriding public interest (which, subject to paragraph (2), may be of a social or economic nature), they may agree to the plan or project notwithstanding a negative assessment of the implications for the European site or the European offshore marine site (as the case may be).'

1.1.8 Mae Rheoliad 66, Rhan 6 y Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi:

'Where, in accordance with regulation 62 (considerations of overriding public interest)— (a) a plan or project is agreed to, notwithstanding a negative assessment of the implications for a European site or a European offshore marine site, or (b) a decision, or a consent, permission or other authorisation, is affirmed on review, notwithstanding such an assessment,— the appropriate authority must secure that any necessary compensatory measures are taken to ensure that the overall coherence of Natura 2000 is protected.'

1.1.9 Nod cyffredin yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw penderfynu, ar sail amcanion cadwraeth a buddiannau cymhwyso safle, pa un a fyddai cynllun neu brosiect, naill ar ei ben ei hun a/neu o'i gyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill, yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y safle Ewropeaidd. Os bydd y gwaith Sgrinio (cam cyntaf y broses, gweler Adran 3 am fanylion) yn dod i'r casgliad bod effeithiau sylweddol yn debygol, yna mae'n rhaid cynnal Asesiad Priodol i benderfynu a fydd effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd y safle.

1.1.10 Dylid nodi, yn dilyn dyfarniad People Over Wind yr UE, lle nodir yr angen am gamau lliniaru i leihau effaith sylweddol debygol, na ellir cynnwys mesurau o'r fath yn y Cam Sgrinio ac mae'n rhaid ystyried yr effeithiau posibl mewn Asesiad Priodol (dyfarniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (People over Wind a Sweetman yn erbyn Coillte Teoranta Achos C-323/17)).

Camau mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.1.11 Mae gofynion y Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn cynnwys pedwar cam ar wahân:

- 1. Cam 1: Sgrinio** yw'r broses sy'n nodi yn gychwynol effeithiau tebygol prosiect neu gynllun, naill ai ar ei ben ei hun neu o'i gyfuno â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ar safle Ewropeaidd ac yn ystyried a allai'r effeithiau hyn fod wedi cael effaith sylweddol ar gyfanrwydd cynefinoedd a/neu rywogaethau cymhwyso'r safle. Mae'n bwysig nodi mai baich y dystiolaeth yw dangos, ar sail gwybodaeth wrthrychol, na fydd unrhyw effaith sylweddol; os gallai'r effaith fod yn sylweddol, neu nad yw'n hysbys, byddai hynny yn sbarduno'r angen am Asesiad Priodol. Ceir cyfraith achosion Llys Cyfiawnder Ewrop i'r perwyl bod yn rhaid cynnal Asesiad Priodol oni bai y gellir diystyru'r tebygolrwydd o effaith sylweddol ar sail gwybodaeth wrthrychol, a mabwysiadu'r egwyddor ragofalus. Penderfynodd dyfarniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ym mis Ebrill 2018 na ellir cymryd camau lliniaru i osgoi neu leihau effeithiau niweidiol y cynllun neu brosiect ar safle Ewropeaidd i ystyriaeth ar y cam sgrinio (Cam 1). Pan fydd angen mesurau o'r fath, bydd cynllun neu brosiect angen i Asesiad Priodol gael ei gynnal (Cam 2).
- 2. Cam 2: Asesiad Priodol** yw'r ystyriaeth fanwl o effaith y prosiect neu'r cynllun, naill ai ar ei ben ei hun neu o'i gyfuno â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd, o ran amcanion cadwraeth y safle a'i strwythur a'i swyddogaeth. Mae hyn er mwyn penderfynu pa un a fydd effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd y safle. Mae'r cam hwn hefyd yn cynnwys datblygu mesurau lliniaru i osgoi neu leihau unrhyw effeithiau posibl.

3. **Cam 3: Asesiad o atebion amgen** yw'r broses sy'n archwilio ffyrdd amgen o gyflawni amcanion y prosiect neu'r cynllun a fyddai'n osgoi effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd, os na fydd mesurau osgoi neu liniaru yn gallu cael gwared ar effeithiau niweidiol.
4. **Cam 4: Asesiad lle nad oes unrhyw atebion amgen yn bodoli a lle mae effeithiau niweidiol yn parhau.** Ar Gam 4, cynhelir asesiad o ba un a yw'r datblygiad yn angenrheidiol ai peidio am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig. Os yw'n angenrheidiol, mae'r cam hwn hefyd yn cynnwys asesiad manwl o'r mesurau gwneud iawn sydd eu hangen i warchod a chynnal cydlynad cyffredinol y rhwydwaith Natura 2000.

1.1.12 Mae'n ofynnol i bob cynllun a phrosiect haen is y mae'n bosibl y gallai effeithio ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar (beth bynnag fo'u pellter o'r safleoedd hyn) gydymffurfio â'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2019) fel mater o gyfraith. Felly, beth bynnag fo'r geiriad polisi sydd wedi'i gynnwys yn SDC, byddai Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd statudol o gynlluniau/prosiectau haen is yn ofynnol. Mae Polisi Cynllunio Cymru 11 a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynllunwyr a datblygwyr gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd os bydd effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar wedi cael eu nodi. Mae Polisi Cynllunio Cymru 11 yn nodi: 'Nid yw'r ffaith fod gan safle ddynodiad statudol yn gwahardd datblygu o reidrwydd, ond rhaid i gynigion gael eu hasesu'n ofalus er mwyn sicrhau y deallir yn glir yr effaith ar y buddiannau gwarchod natur hynny y mae'r dynodiad yn ceisio'u gwarchod; dylid cyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cadwraeth rhyngwladol a chenedlaethol yn llawn, a dylid gwarchod safleoedd dynodedig statudol rhag difrod a dirywiad yn unol ag amcanion y dynodiad, gyda'u nodweddion pwysig yn cael eu gwarchod a'u gwarchod trwy reoli'n briodol. Am ragor o wybodaeth am Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd gweler Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur.' Serch hynny, mae'n bwysig bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn o SDC yn nodi'r mathau o effeithiau posibl a allai ddeillio o weithredu polisi, a sut y gellid osgoi/liniaru y rhain yn ddiweddarach (h.y. tynnu sylw at broblemau posibl ar gam cynnar), yn ogystal â rhoi sicrwydd polisi lefel uchel y bydd Cynlluniau Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn y dyfodol, CDLlau a datblygwyr yn dilyn y broses angenrheidiol i nodi ac asesu goblygiadau posibl i safleoedd Ewropeaidd/Ramsar wrth neilltuo tir ar gyfer datblygu. Bydd angen i'r Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd dilynol ar lefel CDLI, neu lefel prosiect hyd yn oed, gymryd i ystyriaeth yr effeithiau posibl a nodir yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn i lywio eu datblygiad polisi ac i sicrhau y gellir cymryd mesurau lliniaru, pan nodir y potensial o effeithiau niweidiol. Mae'n bwysig nodi mai dyma sut mae'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ailadroddol yn sicrhau na ellir cydsynio na gweithredu cynlluniau a phrosiectau heb sicrhau yn gyntaf na fyddent yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y rhwydwaith o safleoedd Ewropeaidd a Ramsar.

Effeithiau Cyfunol

- 1.1.13 Fel yr amlinellir yn Adran 3.1, mae'n angenrheidiol i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ystyried effeithiau cyfunol â phrosiectau neu gynlluniau eraill.
- 1.1.14 Pan allai agwedd ar brosiect gael rhyw effaith ar nodwedd(ion) cymhwyso safle Ewropeaidd, ond na fyddai effaith yr agwedd honno ar y prosiect ar ei phen ei hun yn sylweddol, bydd angen gwirio'r effeithiau yn gyfunol, yn gyntaf gydag effeithiau eraill yr un prosiect, ac yna gydag effeithiau unrhyw gynlluniau a phrosiectau eraill.
- 1.1.15 Os na ellir diystyru'r posibilrwydd o effeithiau cronol, mae'n angenrheidiol ystyried sut y gallai ychwanegu effeithiau o brosiectau neu gynlluniau eraill greu effaith niweidiol gyfunol ar safle Ewropeaidd a fyddai'n sylweddol. Gan ystyried yr effeithiau na fyddent yn debygol o fod yn sylweddol ar eu pen eu hunain, mae'n angenrheidiol gwneud dyfarniad ynghylch a fyddai'r effeithiau hyn yn cael eu gwneud yn fwy tebygol neu'n fwy sylweddol os caiff effeithiau prosiectau neu gynlluniau eraill eu hychwanegu atynt. Gellir nodi'r rhan fwyaf o effeithiau cronol drwy'r nodweddion canlynol. A allai effeithiau ychwanegol fod yn gronnol oherwydd y byddent:

Yn cynyddu'r effeithiau ar y nodweddion cymhwysol mewn ffordd ychwanegol, neu synergyddol?

Yn cynyddu sensitifrwydd neu natur agored i niwed nodweddion cymhwyso'r safle sy'n cael ei effeithio gan gynigion y prosiect?

LLWYBR NEWYDD: STRATEGAETH DRAFNDIAETH NEWYDD CYMRU 2021

Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Yn cael eu teimlo yn fwy dwys gan yr un nodweddion cymhwyso dros yr un ardal (effaith haenu), neu gan yr un nodwedd gymhwyso dros ardal ehangach (mwy) (effaith ledaenu), neu drwy effeithio ardaloedd newydd o'r un nodwedd gymhwyso (effaith wasgaru)?

1.1.16 Yn unol â David Tyldesley Associates (DTA) Publications Limited, *The Habitats Regulations Assessment Handbook* (DTA Publications Limited, 2016), bydd yn angenrheidiol chwilio am brosiectau a chynlluniau ar y camau canlynol:

a. Ceisiadau wedi'u cyflwyno ond heb eu penderfynu eto.

Prosiectau sy'n destun adolygiad cyfnodol e.e. trwyddedau blynyddol, yn ystod y cyfnod y bydd eu hadnewyddu yn cael ei ystyried.

Gwrthodiadau sy'n destun gweithdrefnau apêl nad ydynt wedi eu penderfynu eto.

Prosiect sydd wedi'u hawdurdodi ond heb gychwyn eto.

b. Prosiectau sydd wedi cael eu cychwyn ond nad ydynt wedi eu cwblhau eto.

c. Prosiectau hysbys nad ydynt angen awdurdodiad allanol.

ch. Cynigion mewn cynlluniau a fabwysiadwyd.

d. Cynigion mewn cynlluniau drafft terfynol a gyhoeddwyd yn ffurfiol neu a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad, archwiliad neu fabwysiadu terfynol.

1.1.17 Gallai cynlluniau sy'n cael eu hystyried amrywio o ddogfennau cynllunio awdurdodau cyfagos i gynlluniau strategol penodol i sector ar bynciau fel perygl llifogydd.

1.1.18 Cynhaliwyd adolygiad o brosiectau a chynlluniau â'r posibilrwydd o effaith gyfunol â'r datblygiad arfaethedig.

Diffiniad o Effeithiau Sylweddol

1.1.19 Un rhan allweddol o broses sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw penderfynu pa un a yw'r cynigion yn debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd ac, felly, a fyddant angen Asesiad Priodol. Dylid gwneud dyfarniadau ynghylch pa mor sylweddol yw prosiect neu gynllun o ran y buddiannau cymhwyso y mae'r safle o bwysigrwydd Ewropeaidd ar eu sail a hefyd ei amcanion cadwraeth. Mae diffiniad defnyddiol o effeithiau sylweddol 'tebygol' fel a ganlyn:

'...likely means readily foreseeable not merely a fanciful possibility; significant means not trivial or inconsequential but an effect that is potentially relevant to the site's conservation objectives'
(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006).

1.1.20 Wrth ystyried a yw'r prosiect yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd, mae'n rhaid mabwysiadu dull rhagofalus, yn enwedig pan asisir bod nodweddion mewn cyflwr anffafriol a'u bod yn mynd y tu hwnt i lwythi critigol.

- Dylid ystyried bod y prosiect yn 'debygol' o gael effaith o'r fath os na fydd yr ymgeisydd (ar sail gwybodaeth wrthrychol) yn gallu eithrio'r posibilrwydd y gallai'r prosiect gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu o'i gyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill.
- Bydd effaith yn 'sylweddol' yn y cyd-destun hwn os gallai danseilio amcanion cadwraeth y safle. Mae'n rhaid cynnal yr asesiad o'r risg honno yng ngoleuni ffactorau fel nodweddion ac amodau amgylcheddol penodol y safle Ewropeaidd dan sylw.

Y Dull o Gyflawni Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.1.21 Mae'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn cymryd i ystyriaeth gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd a chanllawiau perthnasol a luniwyd gan DTA Publications Limited, 2016.

1.1.22 Cwblhawyd y camau canlynol:

- adolygiad o'r polisïau yn SDC i benderfynu pa rai sydd â'r potensial i effeithio ar safleoedd Ewropeaidd; ac
- ystyriaeth o unrhyw effeithiau cyfunol posibl gyda phrosiectau neu gynlluniau eraill.

1.2 Y Strategaeth

- 1.2.1 Mae'r strategaeth yn cyflwyno'r weledigaeth o system drafndiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon. Mae system drafndiaeth hygyrch a chynaliadwy yn darparu buddion ehangach i bobl a chymunedau, i'r amgylchedd, i'r economi a lleoedd, ac i ddiwylliant ac iaith yng Nghymru, gan gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.3 Polisiâu a Chynlluniau Cryno

- 1.3.1 Mae tair blaenoriaeth a chwe ysgogiad polisi ar gyfer cyflawni wedi eu cynnwys yn Strategaeth Drafndiaeth Cymru 2021, a gyflwynir yn

LLWYBR NEWYDD: STRATEGAETH DRAFNIDIAETH NEWYDD CYMRU 2021

Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.3.2 Tabl 1 a cheir 9 Cynllun Cryno, a gyflwynir yn Nhabl 2.

LLWYBR NEWYDD: STRATEGAETH DRAFNIDIAETH NEWYDD CYMRU 2021

Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Tabl 1: Polisiâu yn y Strategaeth

Meysydd Strategaeth Cyffredin	Polisiâu
Ein Blaenoriaethau 5 Mlynedd	<p>Blaenoriaeth 1: Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio.</p> <p>Blaenoriaeth 2: Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws trwy drafnidiaeth gynaliadwy.</p> <p>Blaenoriaeth 3: Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.</p>
Uchelgeisiau Llesiant	<p>O ddaioni i bobl a chymunedau:</p> <ul style="list-style-type: none">1.1 – Cydraddoldeb1.2 – Iechyd1.3 – Hyder a diogelwch <p>O ddaioni i'r amgylchedd:</p> <ul style="list-style-type: none">2.1 – Allyriadau nwyon tŷ gwydr2.2 – Bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau2.3 – Gwastraff <p>O ddaioni i'r economi a lleoedd yng Nghymru</p> <ul style="list-style-type: none">3.1 – Cymunedau cydlynus3.2 – Arloesedd3.3 – Dosbarthu nwyddau3.4 – Fforddiadwyedd <p>O ddaioni i ddiwylliant ac iaith Cymru</p> <ul style="list-style-type: none">4.1 – Y Gymraeg4.2 – Y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant4.3 – Yr amgylchedd hanesyddol
Sut y Byddwn yn Cyflawni	<p>Buddsoddi yn Gyfrifol</p> <p>Cynlluniau Cyflawni a Gweithredu</p> <p>Llwybrau Cyflawni Trawsbynciol</p> <p>Gweithio mewn Partneriaeth</p> <p>Diweddarau ein Polisiâu a'n Llywodraethu</p> <p>Sgiliau a Chapasiti</p>

LLWYBR NEWYDD: STRATEGAETH DRAFNIDIAETH NEWYDD CYMRU 2021

Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Tabl 2: Cynlluniau Cryno yn y Strategaeth

Cynlluniau Cryno
Teithio Llesol
Bysiau
Rheilffyrdd
Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio
Y Trydydd Sector
Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat
Nwyddau a Logisteg
Porthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol
Hedfanaeth

2 SGRINIO

2.1 Dull Sgrinio

- 2.1.1 Yn gyffredinol, y polisiau a sgriniwyd allan yn y gwaith sgrinio cychwynnol oedd y rhai na allent arwain at 'ddatblygiad uniongyrchol' neu na allent gael unrhyw lwybr effaith at unrhyw safleoedd Ewropeaidd. Roedd hyn yn cynnwys polisiau sydd â'r nod uniongyrchol o ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol a naturiol lleol, neu'r rhai sy'n cefnogi gweithrediad polisiau eraill ac felly na allent effeithio ar safleoedd Ewropeaidd yn uniongyrchol.
- 2.1.2 Mae'r asesiad sgrinio yn dilyn canllawiau a nodir yn Rhan F Canllawiau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd DTA. Adolygwyd pob un o'r polisiau yn SDC yn erbyn y rhestr ganlynol o gategoriâu sgrinio (gweler Tabl 3). Dyluniwyd y categorïau asesu hyn yn benodol i nodi'r gwahanol fathau o bolisi y gellid eu gweithredu trwy ddogfennau cynllunio lefel uchel, ac i benderfynu a allai camau yn y dyfodol yn deillio o bolisi arwain at ddatblygiad a allai effeithio wedyn ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar.

Tabl 3: Categoriâu Asesiad Sgrinio (Addaswyd o Adran F.6.3 Llawlyfr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd DTA)

Categori	Disgrifiad
Categori A:	Datganiadau polisi cyffredinol/dyheadau cyffredinol (sgrinio allan). Dylai polisiau nad ydynt yn ddim mwy na datganiadau polisi cyffredinol neu ddyheadau gwleidyddol cyffredinol gael eu sgrinio allan gan na allant gael effaith arwyddocaol ar safle.
Categori B:	Polisiau sy'n rhestru meini prawf cyffredinol ar gyfer profi derbynoldeb/cynaliadwyedd cynigion (sgrinio allan). Ni all y polisiau cyffredinol hyn gael unrhyw effaith ar safle Ewropeaidd ac felly dylid eu sgrinio allan.
Categori C:	Cynigion y cyfeirir atynt ond nad ydynt wedi'u cynnig gan y cynllun (sgrinio allan). Dylid sgrinio allan unrhyw gyfeiriadau at gynigion penodol am brosiectau, megis y rheiny a nodir, er enghraifft, mewn fframweithiau polisi uwch megis Cynllun Gofodol Cymru neu Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol, sy'n ymwneud efallai â phrosiectau seilwaith arwyddocaol. Caiff y rhain eu hasesu gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru. 'Prawf' defnyddiol o ba un a ddylid sgrinio prosiect allan ar y cam hwn yw gofyn y cwestiwn: 'A ddarperir ar gyfer/cynigir y prosiect yn rhan o gynllun neu raglen arall ac a fyddai'n debygol o ddigwydd o dan y cynllun neu raglen arall pa un a yw'r cynllun pwnc hwn yn cael ei fabwysiadu ai peidio, gan gyfeirio neu heb gyfeirio ato?' Os yw'r ateb yn gadarnhaol, bydd fel rheol yn briodol sgrinio'r prosiect allan ar y cam hwn.
Categori D:	Polisiau diogelu'r amgylchedd/gwarchod safleoedd/trothwy cynllun cyfan cyffredinol (sgrinio allan). Polisiau yw'r rhain sydd â'r diben amlwg o ddiogelu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth, a/neu gadw neu wella'r amgylchedd naturiol, adeiledig neu hanesyddol, lle byddai mesurau gwella yn annhebygol o gael unrhyw effeithiau andwyol ar safle Ewropeaidd. Gellir eu sgrinio allan gan fod gweithredu'r polisiau yn debygol o ddiogelu safleoedd Ewropeaidd yn hytrach na chael effaith andwyol, ac ni fyddent yn tansellio'r amcanion cadwraeth.
Categori E:	Polisiau neu gynigion sy'n llywio newidiadau mewn ffordd sy'n diogelu safleoedd Ewropeaidd rhag effeithiau andwyol (sgrinio allan). Bydd effaith y polisiau neu'r cynigion hyn yn llywio newidiadau mewn ffordd sy'n diogelu safleoedd Ewropeaidd y gallai'r newidiadau effeithio ar eu nodweddion cymhwysol, ac felly geir eu sgrinio allan.
Categori F:	Polisiau neu gynigion na allant arwain at ddatblygu neu newid arall (sgrinio allan). Polisiau nad ydynt ynddynt eu hunain yn arwain at ddatblygu neu newidiadau eraill, er enghraifft, gan eu bod yn ymwneud â dylunio neu feini prawf ansoddol eraill ar gyfer datblygu, megis deunyddiau ar gyfer datblygiad newydd. Nid ydynt yn sbarduno unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau eraill a allai effeithio ar safle Ewropeaidd a gellir eu sgrinio allan.

Categori	Disgrifiad
Categori G:	Polisiâu neu gynigion na allai gael unrhyw effaith andwyol ddirnadwy ar safle (sgrinio allan). Polisiâu sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer newid, ond na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle Ewropeaidd, am nad oes unrhyw gysylltiad achosol neu gysylltiad rhyngddynt hwy a nodweddion cymhwyso unrhyw safleoedd Ewropeaidd, ac felly gellir eu sgrinio allan.
Categori H:	Polisiâu neu gynigion na allai eu heffeithiau (gwirioneddol neu ddamcaniaethol) danseilio'r amcanion cadwraeth (naill ai ar eu pen eu hunain neu o'u cyfuno ag agweddau eraill ar y cynllun hwn neu gynlluniau neu brosiectau eraill) (sgrinio allan). Polisiâu neu gynigion sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer newid, ond nad ydynt yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd, naill ai ar eu pen eu hunain neu o'u cyfuno ag agweddau o'r un cynllun, neu o'u cyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill, ac felly gellir eu sgrinio allan. Gallai'r rhain gynnwys achosion lle ceir rhai effeithiau posibl a fyddai (a hyd yn oed yn gyfunol yn ddamcaniaethol) yn amlwg yn fân ac na allent danseilio'r amcanion cadwraeth.
Categori I:	Polisiâu neu gynigion ag effaith arwyddocaol debygol ar safle ar eu pen eu hunain (sgrinio mewn). Dylai polisiâu neu gynigion sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd ar eu pen eu hunain gael eu sgrinio i mewn.
Categori J:	Polisiâu neu gynigion nad ydynt yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar eu pen eu hunain. Byddai'r agweddau hyn ar y cynllun yn cael rhywfaint o effaith ar safle, ond nid yw'r effaith yn debygol o fod yn arwyddocaol; felly mae angen eu hystyried o safbwynt effeithiau o'u cyfuno ag eraill (cronnol). Byddant wedyn yn cael eu hail-gategoreiddio naill ai i Gategori K (dim effaith arwyddocaol o'u cyfuno) neu Gategori L (yn debygol o gael effaith arwyddocaol o'u cyfuno), fel yr esbonnir isod.
Categori K:	Polisiâu neu gynigion nad ydynt yn debygol o gael effaith arwyddocaol naill ai ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol (sgrinio allan ar ôl y prawf cyfuno). Gellir diystyru'r agweddau hynny ar y cynllun heb unrhyw botensial ar gyfer effaith arwyddocaol naill ai ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol ar ôl yr asesiad cyfunol.
Categori L:	Polisiâu neu gynigion a allai fod yn debygol o gael effaith arwyddocaol cyfunol (sgrinio mewn ar ôl y prawf cyfuno). Yr agweddau hynny ar y cynllun na fyddent yn cael effaith arwyddocaol ar eu pen eu hunain ond y nodwyd bod ganddynt y potensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar o'u cyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill.
Categori M:	Polisiâu neu gynigion ardal, safle neu achos penodol wedi'u teilwra sydd â'r bwriad o osgoi neu leihau effeithiau niweidiol ar safleoedd Ewropeaidd (sgrinio mewn). Polisiâu neu gynigion sydd wedi cael eu cynnwys yn y cynllun gyda'r bwriad o osgoi neu leihau effeithiau ar safle(oedd) Ewropeaidd penodol y gallai eu nodweddion cymhwyso gael eu heffeithio fel arall gan weithrediad y cynllun.

2.2 Asesiad Sgrinio Cychwynnol

2.2.1 Mae penodau SDC a restrir isod yn ffeithiol ac nid ydynt ynddynt eu hunain yn arwain at newid neu ddatblygiad. Nid yw'n bosibl y gall yr adrannau hyn gael unrhyw effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar ac felly maent wedi eu sgrinio allan o asesiad pellach o dan gategori A (Tabl 4 isod).

Tabl 4: Sgrinio Penodau 1, 2, 4 a 6

Adran y Strategaeth	Cyfiawnhad Sgrinio	Casgliad Sgrinio
Pennod 1 – Gweledigaeth	Testun cyflwyniadol	Sgriniwyd allan (Categori A)
Pennod 3 – Uchelgeisiau Llesiant	Uchelgeisiau 20 mlynedd lefel uchel	Sgriniwyd allan (Categori A)

LLWYBR NEWYDD: STRATEGAETH DRAFNIDIAETH NEWYDD CYMRU 2021

Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Adran y Strategaeth	Cyfiawnhad Sgrinio	Casgliad Sgrinio
Pennod 5 – Dwyn Ein Hunain a'n Partneriaid i Gyfrif	Mesurau Meintiol i nodi cynnydd yn erbyn uchelgeisiau	Sgriniwyd allan (Categori A)
Pennod 6 – Y Pum Dull o Weithio	Dull Cyffredinol o weithio yn dilyn Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Sgriniwyd allan (Categori A)

2.2.2 Mae'r penodau sy'n weddill fel a ganlyn:

- Pennod 2 – Ein Blaenoriaethau
- Pennod 4 – Sut y Byddwn yn Cyflawni
- Pennod 7 – Cynlluniau Cryno

2.3 Asesiad Sgrinio Manwl

Tabl 5: Sgrinio Blaenoriaethau 5 Mlynedd

Blaenoriaethau	Cyfiawnhad	Casgliad
Blaenoriaeth 1: Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio	<p>Mae'r flaenoriaeth hon yn nodi sut y bydd y strategaeth yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer gwell cysylltedd ffisegol a digidol, mwy o wasanaethau lleol, mwy o weithio gartref ac o bell a mwy o deithio llesol, i leihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir yn feunyddiol.</p> <p>Mae'r flaenoriaeth ei hun yn ddyhead cyffredinol ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Ewropeaidd/ Ramsar.</p>	Sgriniwyd allan (Categori A)
Blaenoriaeth 2: Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws trwy drafnidiaeth gynaliadwy	<p>Mae'r flaenoriaeth hon yn nodi sut y bydd y strategaeth yn ceisio mynd ati i sicrhau newid moddau trafnidiaeth oddi wrth ddefnyddio ceir preifat ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau.</p> <p>Mae'r flaenoriaeth ei hun yn ddyhead cyffredinol ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Ewropeaidd/ Ramsar.</p>	Sgriniwyd allan (Categori A)
Blaenoriaeth 3: Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy	<p>Mae'r flaenoriaeth hon yn nodi sut y bydd y strategaeth yn annog pobl i newid eu hymddygiad teithio i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy carbon isel.</p> <p>Ni fyddai'r flaenoriaeth ei hun yn arwain at ddatblygiad ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Ewropeaidd/ Ramsar.</p>	Sgriniwyd allan (Categori A)

LLWYBR NEWYDD: STRATEGAETH DRAFNDIAETH NEWYDD CYMRU 2021

Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Tabl 6: Sgrinio Ysgogiadau Polisi ar gyfer Cyflawni

Ysgogiadau Polisi ar gyfer cyflawni	Cyfiawnhad	Casgliad
Buddsoddi yn Gyfrifol	Mae'r polisi hwn yn darparu canllawiau ar fuddsoddi cyfalaf a referniw mewn gwasanaethau a seilwaith trafndiaeth yng Nghymru. Ni fyddai gweithredu'r polisi ei hun yn arwain at ddatblygiad ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Ewropeaidd/ Ramsar.	Sgriniwyd allan (Categori A)
Cynlluniau Cyflawni a Gweithredu	Mae'r polisi hwn yn darparu canllawiau ar lunio cyfres o gynlluniau gweithredu a strategaethau wedi'u targedu i gyflawni gweledigaeth hirdymor SDC. Ni fyddai gweithredu'r polisi ei hun yn arwain at ddatblygiad ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Ewropeaidd/ Ramsar.	Sgriniwyd allan (Categori A)
Llwybrau Cyflawni Trawsbynciol	Mae'r polisi hwn yn darparu canllawiau ar feysydd allweddol y nodwyd eu bod yn hanfodol i ddarpariaeth SDC. Ni fyddai gweithredu'r polisi ei hun yn arwain at ddatblygiad ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Ewropeaidd/ Ramsar.	Sgriniwyd allan (Categori A)
Gweithio mewn Partneriaeth	Mae'r polisi hwn yn darparu canllawiau ar weithio gyda phartneriaid i alluogi darpariaeth y strategaeth hirdymor hon. Ni fyddai gweithredu'r polisi ei hun yn arwain at ddatblygiad ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Ewropeaidd/ Ramsar.	Sgriniwyd allan (Categori A)
Diweddarau ein Polisiâu a'n Llywodraethu	Mae'r polisi hwn yn darparu canllawiau ar adolygu a diweddarau canllawiau manwl a dogfennau polisi er mwyn eu cadw yn berthnasol ac i gymryd amgylchiadau newidiol i ystyriaeth gan gynnwys nodau SDC. Ni fyddai gweithredu'r polisi ei hun yn arwain at ddatblygiad ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Ewropeaidd/ Ramsar.	Sgriniwyd allan (Categori A)
Sgiliau a Chapasiti	Mae'r polisi hwn yn darparu canllawiau ar ddatblygu capasiti a sgiliau yn Llywodraeth Cymru er mwyn darparu'r strategaeth hon fel dyhead. Ni fyddai gweithredu'r polisi ei hun yn arwain at ddatblygiad ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Ewropeaidd/ Ramsar.	Sgriniwyd allan (Categori A)

LLWYBR NEWYDD: STRATEGAETH DRAFNIDIAETH NEWYDD CYMRU 2021

Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Tabl 7: Sgrinio'r Cynlluniau Cryno

Cynllun Cryno	Cyfiawnhad	Casgliad
Teithio Llesol	<p>Mae'r cynllun cryno hwn yn darparu canllawiau ar sut y gall y sector teithio llesol gyfrannu at nodau a blaenoriaethau cyffredinol SDC.</p> <p>Mae'r cynllun hwn yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan weithredol, alluogi i gefnogi darpariaeth cynlluniau teithio llesol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff sector cyhoeddus eraill i nodi cynlluniau teithio llesol penodol ac ymgorffori teithio llesol mewn cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.</p> <p>Byddai hyn yn dod o dan Gategori A. Datganiadau polisi cyffredinol / dyheadau cyffredinol. Mae'r cynllun cryno hwn yn ffeithiol ac nid yw'n arwain ynddo'i hun at newid neu ddatblygiad. Nid yw'n bosibl y gallai'r cynllun cryno hwn gael unrhyw effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar ac felly fe'i sgriniwyd allan.</p>	Sgriniwyd allan (Categori A)
Bysiau	<p>Mae'r cynllun cryno hwn yn darparu canllawiau ar sut y gall y sector bysiau gyfrannu at nodau a blaenoriaethau cyffredinol SDC.</p> <p>Mae'r cynllun hwn yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan weithredol, alluogi i gefnogi darpariaeth gwasanaethau a seilwaith bysiau. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff sector cyhoeddus eraill i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau bysiau integredig a sicrhau mesurau blaenoriaeth priodol ac effeithiol i fysiau.</p> <p>Byddai hyn yn dod o dan Gategori A. Datganiadau polisi cyffredinol / dyheadau cyffredinol. Mae'r cynllun cryno hwn yn ffeithiol ac nid yw'n arwain ynddo'i hun at newid neu ddatblygiad. Nid yw'n bosibl y gallai'r cynllun cryno hwn gael unrhyw effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar ac felly fe'i sgriniwyd allan.</p>	Sgriniwyd allan (Categori A)
Rheilffyrdd	<p>Mae'r cynllun cryno hwn yn darparu canllawiau ar sut y gall y sector rheilffyrdd gyfrannu at nodau a blaenoriaethau cyffredinol SDC.</p> <p>Mae'r cynllun yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan weithredol, alluogi i gefnogi darpariaeth a datblygiad gwasanaethau rheilffyrdd ledled Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru, drwy'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, yn nodi cynlluniau ar gyfer buddsoddiadau a gwasanaethau seilwaith rheilffyrdd. Byddai'r rhain yn cynnwys cyflwyno cynlluniau trydaneiddio rheilffyrdd ledled Cymru a darparu gwelliannau ac estyniadau i rwydweithiau yng Nghymru gan gynnwys ailagor hen reilffyrdd a llwybrau rheilffyrdd newydd.</p> <p>Byddai hyn yn dod o dan Gategori A. Datganiadau polisi cyffredinol / dyheadau cyffredinol. Mae'r cynllun cryno hwn yn ffeithiol ac nid yw'n arwain ynddo'i hun at newid neu ddatblygiad. Nid yw'n bosibl y gallai'r cynllun cryno hwn gael unrhyw effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar ac felly fe'i sgriniwyd allan.</p>	Sgriniwyd allan (Categori A)

LLWYBR NEWYDD: STRATEGAETH DRAFNDIAETH NEWYDD CYMRU 2021

Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cynllun Cryno	Cyfiawnhad	Casgliad
Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	<p>Mae'r cynllun cryno hwn yn darparu canllawiau ar sut y gall y sector ffyrdd, strydoedd a pharcio gyfrannu at nodau a blaenoriaethau cyffredinol SDC.</p> <p>Mae'r cynllun yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaethau a dogfennau polisi i sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd yn ddiogel, wedi'i gynnal a'i gadw a'i reoli yn dda, ac yn cefnogi opsiynau trafndiaeth gynaliadwy gan gynnwys teithio llesol a thrafnidiaeth fwy integredig.</p> <p>Byddai hyn yn dod o dan Gategori A. Datganiadau polisi cyffredinol / dyheadau cyffredinol. Mae'r cynllun cryno hwn yn ffeithiol ac nid yw'n arwain ynddo'i hun at newid neu ddatblygiad. Nid yw'n bosibl y gallai'r cynllun cryno hwn gael unrhyw effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar ac felly fe'i sgriniwyd allan.</p>	Sgriniwyd allan (Categori A)
Y Trydydd Sector	<p>Mae'r cynllun cryno hwn yn darparu canllawiau ar sut y gall y sector trafndiaeth cymunedol a dielw gyfrannu at nodau a blaenoriaethau cyffredinol SDC.</p> <p>Mae'r cynllun yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynlluniau ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu cymorth ar gyfer gwasanaethau trafndiaeth cymunedol a dielw.</p> <p>Byddai hyn yn dod o dan Gategori A. Datganiadau polisi cyffredinol / dyheadau cyffredinol. Mae'r cynllun cryno hwn yn ffeithiol ac nid yw'n arwain ynddo'i hun at newid neu ddatblygiad. Nid yw'n bosibl y gallai'r cynllun cryno hwn gael unrhyw effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar ac felly fe'i sgriniwyd allan.</p>	Sgriniwyd allan (Categori A)
Taccis a Cherbydau Hurio Preifat	<p>Mae'r cynllun cryno hwn yn darparu canllawiau ar sut y gall y sector taccis a cherbydau hurio preifat gyfrannu at nodau a blaenoriaethau cyffredinol SDC.</p> <p>Mae'r cynllun yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn creu dull mwy cyson â'r drefn drwyddedu bresennol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r sector. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Trafndiaeth Cymru i sicrhau bod y seilwaith angenrheidiol ar waith i gynorthwyo'r newid i daccis dim allyriadau.</p> <p>Byddai hyn yn dod o dan Gategori A. Datganiadau polisi cyffredinol / dyheadau cyffredinol. Mae'r cynllun cryno hwn yn ffeithiol ac nid yw'n arwain ynddo'i hun at newid neu ddatblygiad. Nid yw'n bosibl y gallai'r cynllun cryno hwn gael unrhyw effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar ac felly fe'i sgriniwyd allan.</p>	Sgriniwyd allan (Categori A)
Nwyddau a Logisteg	<p>Mae'r cynllun cryno hwn yn darparu canllawiau ar sut y gall y sector nwyddau a logisteg gyfrannu at nodau a blaenoriaethau cyffredinol SDC.</p> <p>Mae'r cynllun yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, y sector a phartneriaid eraill ar Gynllun Logisteg a Nwyddau i Gymru ac yn integreiddio nwyddau a logisteg i'r Llwybr Datgarboneiddio. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi ymyriadau sy'n symud nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd a thrafnidiaeth ar y dŵr ac</p>	Sgriniwyd allan (Categori A)

LLWYBR NEWYDD: STRATEGAETH DRAFNIDIAETH NEWYDD CYMRU 2021

Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cynllun Cryno	Cyfiawnhad	Casgliad
	<p>yn integreiddio nwyddau a logisteg i ganllawiau cynllunio wedi'u diweddarau ar gyfer trafndiaeth.</p> <p>Byddai hyn yn dod o dan Gategori A. Datganiadau polisi cyffredinol / dyheadau cyffredinol. Mae'r cynllun cryno hwn yn ffeithiol ac nid yw'n arwain ynddo'i hun at newid neu ddatblygiad. Nid yw'n bosibl y gallai'r cynllun cryno hwn gael unrhyw effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar ac felly fe'i sgriniwyd allan.</p>	
Porthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol	<p>Mae'r cynllun cryno hwn yn darparu canllawiau ar sut y gall y sector porthladdoedd a thrafnidiaeth forol gyfrannu at nodau a blaenoriaethau cyffredinol SDC.</p> <p>Mae'r cynllun yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn prosiectau sy'n darparu seilwaith porthladdoedd mwy cynaliadwy ac sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio yn y sector. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Grŵp Porthladdoedd Cymru a phartneriaid ehangach i ddatblygu Strategaeth Porthladdoedd a Morol i Gymru.</p> <p>Byddai hyn yn dod o dan Gategori A. Datganiadau polisi cyffredinol / dyheadau cyffredinol. Mae'r cynllun cryno hwn yn ffeithiol ac nid yw'n arwain ynddo'i hun at newid neu ddatblygiad. Nid yw'n bosibl y gallai'r cynllun cryno hwn gael unrhyw effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar ac felly fe'i sgriniwyd allan.</p>	Sgriniwyd allan (Categori A)
Hedfanaeth	<p>Mae'r cynllun cryno hwn yn darparu canllawiau ar sut y gall y sector hedfanaeth gyfrannu at nodau a blaenoriaethau cyffredinol SDC.</p> <p>Mae'r cynllun yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn berchen ar Faes Awyr Caerdydd a'i gefnogi, gan ddatblygu strategaeth carbon isel ar gyfer y maes awyr yn ogystal â strategaeth ynni gysylltiedig.</p> <p>Byddai hyn yn dod o dan Gategori A. Datganiadau polisi cyffredinol / dyheadau cyffredinol. Mae'r cynllun cryno hwn yn ffeithiol ac nid yw'n arwain ynddo'i hun at newid neu ddatblygiad. Nid yw'n bosibl y gallai'r cynllun cryno hwn gael unrhyw effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar ac felly fe'i sgriniwyd allan.</p>	Sgriniwyd allan (Categori A)

2.4 Casgliad Sgrinio

- 2.4.1 Sgriniwyd holl benodau SDC allan o dan Gategori A gan eu bod yn cynnwys testun cyflwyniadol a datganiadau polisi cyffredinol / dyheadau cyffredinol na fyddent yn arwain ynddynt eu hunain at unrhyw newid neu ddatblygiad ac felly nid yw'n bosibl y gallent gael unrhyw effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd/Ramsar.

3 Casgliad Cyffredinol

- 3.1.1 Mae'r gwaith Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn o SDC wedi ystyried goblygiadau posibl y Cynllun i'r safleoedd Ewropeaidd yng Nghymru.
- 3.1.2 Daeth yr ymarfer Sgrinio i'r casgliad na ystyriwyd y bydd yr un o'r polisiau na'r Cynlluniau Cryno Cysylltiedig yn cael effaith sylweddol debygol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd/Ramsar ar eu pen eu hunain, nac yn gyfunol.
- 3.1.3 Os caiff unrhyw fanylion pellach, gan gynnwys manylion gofodol eu cadarnhau o ran y Cynlluniau Cryno, yna bydd yn ofynnol i bob cynllun fod yn destun gwaith sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i'r cynlluniau lefel nesaf (Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth).

4 Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru, 2021. Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru 2021.

DTA Publications Limited, Mehefin 2016. *The Habitats Regulations Assessment Handbook*. DTA Publications.

OS 2019/579: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

Y Comisiwn Ewropeaidd, *Managing Natura 2000 sites - The provisions of Article 6 of the 'Habitats' Directive 92/43/EEC* - Tachwedd 2018.

Y Comisiwn Ewropeaidd, *Guidance document on Article 6(4) of the Habitats Directive 92/43/EEC*.

Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2006) *Planning for the Protection of European Sites: Appropriate Assessment. Guidance for Regional Spatial Strategies and Local Development Documents*.

Llywodraeth Cymru, 2015. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015.

Llywodraeth Cymru, 2021. Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11, Chwefror 2021.

Llywodraeth Cymru, 2009. Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur.

Arcadis Consulting (UK) Limited

Tŷ Arcadis Cymru
Parc Busnes Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0EY
Y Deyrnas Unedig
Ff: +44 (0)1453 423 100

[arcadis.com](https://www.arcadis.com)

